**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1074
Ein cyf/Our ref DET/03160/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

23 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth ynglŷn â'r ddeiseb ar y rheoliadau sy'n llywodraethu nifer y bobl y caniateir iddynt ymgynnull ar gyfer gemau pêl-droed.

Mae'r mesurau cenedlaethol mewn ymateb i'r coronafeirws a ddaeth i rym ar 9 Tachwedd, yn dilyn y cyfnod atal diweddar, yn golygu y gall unrhyw un gymryd rhan mewn chwaraeon neu wneud ymarfer corff mewn grŵp o hyd at 30 o gyfranogwyr yn yr awyr agored neu hyd at 15 dan do, os yw hyn yn rhan o weithgaredd wedi'i drefnu a reolir er enghraifft gan gampfa, canolfan hamdden neu glwb chwaraeon. Yn gyffredinol, byddai hyfforddwyr a swyddogion cyfatebol yn cael eu hystyried yn gyfranogwyr felly dylai'r terfyn o 30 neu 15 eu cynnwys. Fodd bynnag, gall unrhyw un sydd yno i drefnu neu gefnogi'r gweithgaredd, os yw'n gweithio neu'n darparu gwasanaeth gwirfoddol, hefyd fynychu ac nid oes angen ei gynnwys o fewn y terfyn o 30 neu 15. Mae plant dan 11 oed hefyd yn cael eu heithrio o'r nifer a ganiateir.

Bydd y mesurau newydd hyn hefyd yn caniatáu i haenau ychwanegol o chwaraeon ddychwelyd i chwarae. Rhoddwyd cyfrifoldeb i Chwaraeon Cymru ystyried ychwanegiadau pellach i'r dynodiad elît fel bod modd i fwy o chwaraeon tîm gael eu cynnal yn yr awyr agored lle mae'r rhif o 30 person wedi cyfyngu ar weithgareddau. Gwneir hyn mewn ffordd reoledig a fesul cam a dim ond pan fo canllawiau clir ar waith gan gyrff llywodraethu chwaraeon i ddiogelu pawb sy'n cymryd rhan.

Gwahoddwyd Cymdeithas Pêl-droed Cymru i gyflwyno eu cynigion ar gyfer galluogi i bêl-droed ailddechrau a dylai Cymdeithas Pêl-droed Cymru barhau i drafod gyda Chwaraeon Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, nid oes terfyn bellach ar nifer y plant o dan 18 oed sy'n gallu cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon a drefnir ar gyfer datblygu neu sicrhau lles plant na'i hwyluso, sy'n golygu y gall mwy o chwaraeon timau ieuenctid barhau. Rhaid i'r gweithgaredd gael ei drefnu a'i oruchwylio gan gorff cyfrifol fel clwb chwaraeon, corff cyhoeddus, elusen neu gampfa neu ganolfan hamdden. Dim ond terfynau'r lleoliad sy'n

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyfyngu ar nifer y plant o dan 18 oed sy'n gallu cymryd rhan yn gyfreithiol a hefyd yr angen i ddigon o oedolion fod yn bresennol i oruchwylio.

Gobeithio bod hyn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi a'r pwyllgor ei hystyried mewn perthynas â'r ddeiseb, ac yn tynnu sylw at y ffaith ein bod yn cymryd camau gweithredol i alluogi mwy o chwaraeon tîm i ddigwydd dros y misoedd nesaf. Mae’n rhaid imi bwysleisio, fodd bynnag, fod yn rhaid rheoli hyn drwy ddull gweithredu fesul cam a hynny er gwaethaf y ffaith ein bod yn ceisio caniatáu i fwy o chwaraeon tîm awyr agored ailddechrau. Mae’n hollbwysig sicrhau ein bod yn gwneud hyn mewn modd diogel a’n bod yn lliniaru unrhyw risg i reoli lledaeniad y feirws.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism